Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 24 Chwefror 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Simeon Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

185. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. Menna Jones.

186. DATGANIADAU O DDIDDORDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

187. Y LLENG PRYDEINIG BRENHINOL
Gwnaed cyflwyniad gan y Maer, ar ran y Cyngor Tref, i ddau aelod blaenllaw o'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Cyflwynwyd Tarian y Dref i Mr Ted Evans a Mr Bill Fowlie am eu gwasanaeth diflino i'r gangen leol.

188. CYMDEITHAS Y SEFYDLIAD, CASTELL RHUTHUN
Derbyniwyd cyflwyniad byr gan Mr Chris Evans, Pennaeth Prosiectau Arbennig, Castell Rhuthun yn dilyn cais am gyfraniad ariannol tuag at y gost o sefydlu ymddiriedolaeth i gymryd drosodd adeiladau'r castell a'r tir. Bydd y Gymdeithas yn gwneud cais am statws elusennol gyda Chastell Rhuthun yn cael ei hybu fel 'cyrchfan' ac yn cael ei roddi yn rhannol ar brydles i'r Castell ei hun. Bydd Cadwyn Clwyd yn ariannu £9,800 ac mae gofyn am gyfraniad tuag at y gweddill o £3,600 sydd ei angen i sefydlu'r Ymddiriedolaeth. Cadarnhaodd bod CADW yn cefnogi'r prosiect yn ariannol ac y bydd yr Ymddiriedolaeth yn hollol ar wahân i Gastell Rhuthun. Diolchwyd iddo gan y Maer.

189. ADRODDIAD Y MAER
Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:
l'w gwblhau.

190. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Hyfforddiant Cynllunio yn Ninbych, Grŵp Sgowtiaid 1af Bryn Bach, Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Gogledd Cymru, Agoriad swyddogol Llwybr Celf Rhuthun.
Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Cae Ddôl.
Cyng. Ken Hawkins	Agoriad swyddogol Llwybr Celf Rhuthun.
Cyng. Robert Owen Ellis	Banc Bwyd x 4, Hyfforddiant Cynllunio yn Ninbych, Cymorth Llifogydd Rhuthun Cyfyngedig, Agoriad swyddogol Llwybr Celf Rhuthun, Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras.
Cyng. Anne Roberts	Dinesydd Da, Ymlaen Rhuthun, Llwybr Celf Rhuthun.
Cyng. Katy Morgan Williams	Cymdeithas Preswylwyr Glasdir x 2.
Cyng. Emrys Wynne	Cymorth Llifogydd Rhuthun Cyfyngedig, Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Gogledd Cymru, Agoriad swyddogol Llwybr Celf Rhuthun.

191. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014.*

192. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

193. PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

194. PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2014.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

195. Y RHYFEL MAWR – CANMLWYDDIANT 1914

Hysbyswyd yr aelodau fod Gwasanaeth Arbennig i'w gynnal yn Eglwys Sant Pedr mewn cydweithrediad a'r Lleng Brydeinig Frenhinol lleol.

***PENDERFYNWYD**: nodi a bod y mater yn cael ei roddi ar Agenda'r mis nesaf i drafod ymhellach.*

196. CYNLLUN ARIAN CYMUDO LLECYNNAU AGORED CYNNIG GRANT – CAE DDOL – PROSIECT 'PONT'

Gofynnwyd i'r aelodau drafod y mater ac i ystyried gofyn am estyniad o chwe mis ar gyfer cynnig y grant uchod.

***PENDERFYNWYD**: gofyn am estyniad grant oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.*

197. BUDDSODDIAD NAT WEST

(a) Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Fanc Nat West - cadarnhawyd cwyn y Cyngor Tref a derbyniwyd y swm o £297.50 i'r Cyfrif Busnes sef y Llogau Gros am y 12 mis o fis Medi 2013.

(b) Gofynnwyd i'r aelodau ystyried buddsoddi'r swm o £35,296.99 sef y balans yng Nghyfrif Busnes Banc Nat West sydd yn ennill 0.05% ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr ac i ystyried buddsoddi arian wrth gefn gydag Undeb Credyd Gogledd Cymru.*

198. PLAC – STAFF NYRSIO YNG NGHASTELL RHUTHUN

Dywedodd aelod fod gan ddynes o Gaernarfon blac pren dyddiedig 1933 fyddai yn ei hoffi ei gyflwyno i'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cynnig - fe wnaiff Cyng. Geraint Woolford y trefniadau angenrheidiol.*

199. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Ionawr 2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

200. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.U.	B.T.	Gwasanaeth broadband	*	62.70
519	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
520	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
521	Eglwys Sant Pedr, Rhuthun	Llifoleuadau 2013		756.47
522	Nominet UK.	Prynu dau enw parth gov.uk	*	261.60
523	Fineline Printing & Stationery Ltd	Papur lliw A4	*	7.56
524	Cyngor Sir Ddinbych	Goleuadau Nadolig 2013	*	5,422.25
525	Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio x 2 – cyfarfod Dydd Gwener, 21 Chwefror yng Nghei Conna.		29.00
526	Dafydd Williams	Arian Parod – stampiau ayyb		23.60
527	Aerial Electrics Ltd	Goleuadau Nadolig 2013 + Bocs Rheoli newydd	*	3,907.20
528	Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad Benthyciad Cynghorus Cae Ddôl 3/7.		7,880.00
529	The Play Inspection Company Ltd	Archwiliadau Blynyddol - Parc Sgrialu a Chae Chwarae Caeau Coffa.	*	156.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,651.22)

201. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 24 Mawrth 2014.